

Rhif: WG29530



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 7 Mawrth 2017

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau a dyma eich cyfle i ddarparu gwybodaeth i ni yr ydych yn credu y dylem ei hystyried wrth i ni lunio'r FfDC.

Bydd yr FfDC yn cynnwys polisiau cynllunio gofodol a bydd yn nodi prosiectau cenedlaethol. Mae diddordeb gennym mewn derbyn tystiolaeth a allai gyfrannu at ddatblygiad y polisiau hyn a manylion prosiectau all helpu Cymru i gyflawni ei nodau cenedlaethol.

Sut i ymateb

Dylid cyflwyno tystiolaeth a phrosiectau erbyn 7 Mawrth 2017. Dylid cyflwyno ffurflen gais gyda phob cyflwyniad.

E-bostiwch ni ar FFDC@cymru.gsi.gov.uk.

Y Gangen Polisi Cynllunio, Y Gyfarwyddiaeth
Gynllunio, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth
a dogfennau
cysylltiedig**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

E-bostiwch ni ar FFDC@cymru.gsi.gov.uk.

Y Gangen Polisi Cynllunio, Y Gyfarwyddiaeth
Gynllunio, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0300 025 3744

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

5	Byrfoddau
6	System y Cynllun Datblygu yng Nghymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
6	Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau
6	Ystyried y Dystiolaeth ac Asesu Prosiectau
7	Cyflwyno Tystiolaeth
11	Ffurflen Cyflwyno Tystiolaeth
12	Ffurflen Cyflwyno Prosiectau

Byrfodau


CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
FfDC	Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
CDS	Cynllun Datblygu Strategol
LIC	Llywodraeth Cymru

Am fwy o wybodaeth am yr FfDC gan gynnwys manylion yr amserlen, yr ymgynghoriad a gwybodaeth ategol, ewch i www.gov.wales.


System y Cynllun Datblygu yng Nghymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Yn y dyfodol bydd system y cynllun datblygu yn cynnwys Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Cymru gyfan, Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) ar lefel leol. Mae CDSau yn annhebygol o gael eu llunio ar draws Cymru gyfan, sy'n golygu y bydd gan rai rhannau o Gymru dair haen ddatblygu ac eraill ddwy.

Rhanbarthau sydd â Chynlluniau Datblygu Strategol



Rhanbarthau sydd heb Gynlluniau Datblygu Strategol



Bydd system y cynllun datblygu yn sicrhau bod materion yn cael eu hystyried ar y lefel mwyaf priodol. Mae'n egwyddor bwysig a bydd yn sicrhau bod cynlluniau yn mynd i'r afael â'r materion hynny y gallant ddylanwadu arnynt orau. Mae pob cynllun yn bwysig a'r aliniad hwn o gynlluniau ar bob lefel sy'n gweithio gyda'i gilydd, fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau.

Bydd yr FfDC yn amlinellu cynllun 20 mlynedd i Gymru i ddarparu'r twf a'r seilwaith y bydd eu hangen arnom er mwyn sicrhau ein lles ni a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd hefyd rôl bwysig ganddo i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym am sicrhau bod tystiolaeth a phrosiectau sy'n gallu llywio'r FfDC yn cael eu cyflwyno i ni.

Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau

Bydd yr FfDC yn cynnwys polisïau cynllunio gofodol a bydd yn nodi prosiectau cenedlaethol. Mae diddordeb gennym mewn derbyn tystiolaeth a allai gyfrannu at ddatblygiad y polisïau hyn a manylion prosiectau all helpu Gymru i gyflawni ei nodau cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau a dyma eich cyfle i ddarparu gwybodaeth i ni yr ydych yn credu y dylem ei hystyried wrth i ni lunio'r FfDC.

Ystyried y Dystiolaeth ac Asesu Prosiectau

Bydd yr FfDC yn seiliedig ar y nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel cyrff cyhoeddus eraill, rhaid i Lywodraeth Cymru weithio tuag at amcanion datblygu cynaliadwy a bodloni'r saith nod llesiant, sy'n dangos y math o Gymru yr ydym am ei weld. Dyma'r nodau:-

Nodau Llesiant

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol poblystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywlog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth a phrosiectau a gyflwynir yn unol â'r saith nod ac yng nghyd-destun system y cynllun datblygu yng Nghymru. Byddwn yn cyhoeddi manylion y prosiectau a'r dystiolaeth a gyflwynir a hefyd yn cyhoeddi'r ffurflenni cais a gwblheir a'r wybodaeth ategol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n hasesiad o brosiectau a gyflwynir ac yn nodi sut rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth i ffurfio'r fframwaith drwy gydol proses yr FfDC.

Cyflwyno Tystiolaeth

Dylech esbonio pam eich bod yn cyflwyno'r dystiolaeth i ni; pa fater cenedlaethol y mae'r dystiolaeth yn berthnasol iddo; a sut rydych yn credu y dylai'r dystiolaeth gael ei defnyddio i lunio'r FfDC newydd. Mae'n bwysig bod materion yn cael eu

hesbonio'n glir. Dylech sicrhau bod eich tystiolaeth yn berthnasol i'r nodau llesiant, gan y byddwn yn ei hystyried o fewn eu cyd-destun.

Dylech ystyried a yw'r dystiolaeth a'r materion y mae'n eu hamlygu, yn berthnasol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol. Mae astudiaethau Cymreig sy'n edrych ar y potensial i greu ynni adnewyddadwy, materion cysylltedd rhwng gwahanol rannau o Gymru neu faterion amgylcheddol sy'n berthnasol i sawl rhanbarth yn enghreifftiau o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r FfDC. Gall materion sy'n ymwneud ag ardal lai ond sy'n bwysig i'r genedl, megis gorsafoedd pŵer neu gynefinoedd sy'n bwysig i'r genedl, hefyd fod yn berthnasol i'r FfDC.

Efallai y gellid mynd i'r afael yn well â thystiolaeth sy'n ymdrin â materion lleol neu ranbarthol mewn CDS a/neu CDLI. Nid yw hyn yn golygu eu bod yn llai pwysig ond bod haen mwy addas yn system y cynllun datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Dylid osgoi tystiolaeth hir, manwl a thechnegol. Lle yr ystyrir hynny'n briodol, dylid hefyd gynnwys crynodeb (750 gair ar y mwyaf) o'r prif bwyntiau, y materion allweddol ac esboniad pam ei bod wedi cael ei chyflwyno. Ni ddylai ceisiadau gynnwys dogfennau na chynlluniau sy'n fwy na maint A3. Er y bydd ceisiadau papur yn cael eu derbyn, byddai ceisiadau electronig yn well. Nid oes angen cyflwyno copi papur yn ogystal â chais electronig.

Cyflwyno Prosiectau

Mae prosiectau ar raddfa genedlaethol yn debygol o fod yn bwysig, naill ai o ran eu graddfa neu eu cyfraniad at gyflawni'r nodau cenedlaethol. Dylech ei gwneud yn glir pam y dylai'r prosiect gael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn yr FfDC a'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at wireddu'r nodau llesiant.

Nid oes angen cynnwys deunydd ategol hir, manwl a thechnegol ar y cam hwn a dylid ei osgoi. Ni ddylai cyflwyniadau gynnwys dogfennau na phlantiau sy'n fwy na maint A3. Byddwn yn cysylltu â chi am fwy o wybodaeth os oes ei hangen. Er y bydd ceisiadau papur yn cael eu derbyn, byddai ceisiadau electronig yn well. Nid oes angen cyflwyno copi papur yn ogystal â chais electronig.

Cyhoeddi Ffurflenni, Tystiolaeth a Gwybodaeth Ategol

Bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynir drwy'r broses hon yn cael ei wneud yn gyhoeddus gan gynnwys enwau'r unigolion, cyrff a sefydliadau a gyflwynodd y cais. Ni fydd manylion cyswllt yn cael eu cyhoeddi.

Sut i Gyflwyno

Dylid cyflwyno tystiolaeth a phrosiectau erbyn 7 Mawrth 2017. Dylid cyflwyno ffurflen gais gyda phob cyflwyniad.

E-bostiwch ni ar FFDC@cymru.gsi.gov.uk.

Y Gangen Polisi Cynllunio, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffurflenni Cais

Ffurflen Cyflwyno Tystiolaeth - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Enw

Manylion Cyswllt

Dyddiad

Teitl y dystiolaeth

Crynodeb o'r dystiolaeth

Crynodeb o'r materion pwysicaf/y casgliadau

Pam ydych chi wedi cyflwyno'r dystiolaeth hon?

Sut ddylai'r dystiolaeth hon gyfrannu at ddatblygiad yr FfDC?

Sut mae'r dystiolaeth hon ac unrhyw weithredoedd y mae'n eu hargymell yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant?

Pam mae'r dystiolaeth o arwyddocâd cenedlaethol?

Ydych chi'n cytuno i'ch gwybodaeth gael ei chyhoeddi?

(Dim ond dystiolaeth y gellir ei chyhoeddi all gyfrannu at ddatblygiad yr FfDC)

Ffurflen Cyflwyno Prosiectau - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Enw	
Manylion Cyswllt	
Dyddiad	
Diddordeb yn y safle	
Manylion perchennog y tir	
Teitl y prosiect	
Crynodeb o'r prosiect	
Lleoliad y prosiect (Atodwch fap o'r lleoliad)	
Pa ganiatâd sydd ei angen?	
Caniatâd sydd eisoes wedi'i roi sy'n berthnasol i'r prosiect	
Cyfranogiad y cyhoedd hyd yn hyn	
Oes asesiad amgylcheddol wedi'i baratoi? (Oes / Nac oes)	
Oes unrhyw ddynodiadau safle neu gyfyngiadau sy'n effeithio ar y safle?	
Beth yw'r amserlen cyflwyno ar gyfer y prosiect?	

Sut fyddai'r prosiect yn cyfrannu at fodloni'r 7 nod llesiant?	
Pam mae'r prosiect o arwyddocâd cenedlaethol?	
Ydych chi'n cytuno i'ch prosiect ac unrhyw wybodaeth ategol gael eu cyhoeddi? (Dim ond prosiectau a gwybodaeth y gellir eu cyhoeddi all gyfrannu at ddatblygiad yr FfDC.)	